

Cyngor Sir Ynys Môn

Polisi a Gweithdrefn Marciwr Pobl sydd â'r Potensial i fod yn Dreisgar

Fersiwn 2.0 Gorffennaf Ebrill 2019

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn nodi cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau diogelwch ei staff.

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r defnydd o farcwyr Potensial Treisgar (PT), eu pwrpas a'r meini prawf ar gyfer cymhwyso marciwr RV i unigolyn.

Cefnogir y Polisi gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

Hanes adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1.0	Ebrill 2019	
2.0	Gorffennaf 2019	Cywiro dyddiadau a theitlau

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi hwn yn:	Gorffennaf 2020
Cynhelir yr adolygiad gan:	Tîm Iechyd a Diogelwch

Manylion cyswllt:

Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (lechydADiogelwch@ynysmon.gov.uk)

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

This document is available in English

Cynnwys

1.0 Sgôp

Mae'r Polisi hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Cyngor i sicrhau diogelwch ei staff yn yr amgylchedd gwaith. Mae natur y gwaith a weir gan rai gweithwyr yn golygu y gall sefyllfaoedd godi yn y gwaith sy'n golygu eu bod yn agored i bobl neu sefyllfaoedd a allai beri risg neu berygl i staff neu eraill. Mae cymryd ymddygiad ymosodol o ddifri yn gam cadarnhaol tuag at greu amgylchedd gwaith mwy diogel, ac ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw weithredoedd neu fygythiadau o drais yn erbyn ei weithwyr.

Felly mae'r Cyngor wedi nodi'r weithdrefn ganlynol i ymdrin â, cofnodi a monitro unrhyw faterion posibl o'r fath.

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r defnydd o Farcwyr ar gyfer Pobl sydd â'r Potensial i fod yn Dreisgar (PT), eu pwrpas a'r meini prawf ar gyfer priodoli marciwr PT i unigolyn.

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl wasanaethau'r Cyngor.

2.0 Deddfwriaeth

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- RIDDOR 2013
- Deddf Trefn Gyhoeddus 1986
- Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Cyfathrebu 2003
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Hawliau Dynol 1998

3.0 Cyflwyniad a'r Weithdrefn i'w dilyn

Mae Adran 2 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn gosod dyletswydd ar bob cyflogwr i gymryd gofal rhesymol am eu hiechyd a'u diogelwch, ac iechyd a diogelwch pobl eraill a all gael eu heffeithio gan y pethau y maent yn eu gwneud neu ddim yn eu gwneud. Mae Adran 7 yr un Ddeddf yn gosod dyletswydd ar bob un gweithiwr. Rhaid iddynt hefyd gydweithredu â'u cyflogwr i'r graddau y mae hynny'n bosibl er mwyn galluogi'r cyflogwr i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Ddeddf.

Gall llawer o ddyletswyddau gwaith arwain at sefyllfaoedd a allai fod yn dreisgar. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Staff â dyletswyddau gorfodi

- Gweithwyr cymdeithasol
- Gweithwyr eraill sy'n ymweld / cyfarfod â pherson neu sy'n ymweld ag eiddo mewn perthynas â'u dyletswyddau ar ran y Cyngor

Mae'r Cyngor felly wedi datblygu'r weithdrefn hon, lle mae marciwr PT yn cael ei roi yn erbyn enw unigolion a allai achosi niwed i aelodau staff sy'n dod ar eu traws. Mae'r weithdrefn yn ystyried hawliau aelodau staff ac unigolion ac yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyfreithlon a theg yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae'n bwysig nodi bod y weithdrefn yn un o ystod o fesurau a ddefnyddir ar y cyd â'r asesiadau risg a'r systemau gwaith diogel y mae Gwasanaethau wedi'u datblygu sy'n manylu ar y modd y maent yn rheoli risgiau mewn sefyllfaoedd penodol, er enghraifft, sefyllfaoedd ble gweithwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain.

4.0 Nod y Marcwyr PT

Pwrpas marcwyr PT yw galluogi gweithwyr sy'n cynllunio ymweliadau / cyfweliadau neu weithio ar eu pennau eu hunain i gymryd y rhagofalon diogelwch angenrheidiol i leihau'r risgiau a berir gan bobl y gallent ddod ar eu traws er mwyn gwarchod iechyd a diogelwch gweithwyr wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau arferol. Gallent hefyd gael eu defnyddio gan staff sy'n delio ag ymwelwyr sy'n rhoi rhybudd /sydd ddim yn rhoi rhybudd eu bod am ymweld â safleoedd gwaith, e.e. staff derbynfa.

Bydd y defnydd o'r wybodaeth a ddarperir yn cael ei reoli'n llym er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau'r Cyngor o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998 oherwydd sensitifrwydd cynhenid y wybodaeth.

5.0 Cyfrifoldebau

5.1 Prif Weithredwr / Prif Weithredwr Cynorthwyol / Dirprwy Brif Weithredwr

5.1.1 Y Prif Weithredwr Cynorthwyol /Dirprwy Brif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ychwanegu marcwyr PT at gofnod unigolyn.

5.1.2 Ef/hi fydd yn llofnodi'r llythyrau a anfonwyd i roi gwybod i unigolion eu bod yn destun marciwr PT.

5.1.3 Y Prif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ddileu marciwr PT oddi ar gofnod unigolyn.

5.2 Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth

5.2.1 Rhannu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â marcwyr PT gyda staff perthnasol yn eu Gwasanaeth a sicrhau mai dim ond yn unol â'r weithdrefn hon y defnyddir unrhyw wybodaeth a rennir.

5.2.2 Yn llofnodi'r llythyrau a anfonwyd i roi gwybod i unigolion bod eu hymddygiad wedi bod yn amhriodol.

5.3 Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch

5.3.1 Yn ymchwilio i unrhyw adroddiadau ADIR, ac yn dod ag unrhyw rai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer defnyddio marciwr PT at sylw'r Prif Weithredwr Cynorthwyol / Dirprwy Brif Weithredwr.

5.3.2 Hysbysu Cyfarwyddwyr / Penaethiaid Gwasanaeth ynghylch marcwyr PT sydd wedi cael eu hychwanegu at neu eu tynnu oddi ar gofnod unigolyn.

5.3.3 Drafftio llythyrau ar ran y Prif Weithredwr Cynorthwyol / Dirprwy Brif Weithredwr yn rhoi gwybod i unigolion am farciwr PT.

5.3.4 Adolygu unrhyw farcwyr PT a, lle bo'n briodol, argymhell tynnu'r marciwr PT.

5.3.5 Cadw'r Gofrestr o'r Marcwyr Pobl sydd â'r Potensial i fod yn Dreisgar, cofnod o bob ymchwiliad, gohebiaeth a phenderfyniad sy'n ymwneud â marcwyr PT.

5.4 Rheolwyr Llinell

5.4.1 Sicrhau bod aelodau'r staff yn adrodd am yr holl ddigwyddiadau perthnasol a bod yr Adain Iechyd a Diogelwch yn derbyn ffurflen ADIR wedi'i llenwi o fewn 10 diwrnod i'r digwyddiad. Dylent hefyd sicrhau bod asesiadau risg a systemau gwaith diogel ar waith lle mae risg sylweddol neu bosibilrwydd o drais yn erbyn staff.

5.4.2 Sicrhau bod defnydd o'r wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion sydd â marcwyr PT yn unol â'r weithdrefn hon yn unig.

5.5 Pob Gweithiwr

5.5.1 Mae cyfrifoldeb ar bob gweithiwr i sicrhau eu bod yn adrodd am ddigwyddiadau i'w rheolwr. Mae dyletswydd ar bob gweithiwr i gydweithredu â rheolwyr i sicrhau eu bod yn glynu wrth y mesurau rheoli a nodwyd i warchod eu hiechyd a'u diogelwch neu iechyd a diogelwch pobl eraill.

6.0 Gweithdrefn

Mae siart lif o'r weithdrefn wedi'i chynnwys yn Atodiad 1

6.1 Yn dilyn digwyddiad, rhaid i'r rheolwr llinell, ynghyd â'r gweithiwr, lenwi ffurflen ADIR ac anfon y ffurflen wedi'i chwblhau at yr Adain Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl ac o fewn 10 diwrnod (calendr yn unol â'r Polisi Iechyd a Diogelwch) i'r digwyddiad. Dylid cymryd camau priodol pellach a gallent gynnwys:

- Creu neu adolygu asesiad risg o'r sefyllfa fel sy'n ofynnol dan y Polisi Trais yn y Gwaith Corfforaethol.
- Sicrhau bod system waith ddiogel, yn seiliedig ar yr asesiad risg, yn ei lle, yn effeithiol ac yn ymarferol.
- Trefnu cyfarfod iechyd a diogelwch i drafod mesurau rheoli pellach posibl.
- Rhoi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad a, lle bo angen, eu cynnwys yn y cyfarfod iechyd a diogelwch.

Noder : Dylid sicio'r Polisi Trais yn y Gwaith Corfforaethol wrth ystyried y pwyntiau uchod.

6.2 Ar ôl derbyn yr ADIR, bydd yr Adain Iechyd a Diogelwch yn:

6.2.1 Mewnbynnu'r wybodaeth i'r Gronfa Ddata Iechyd a Diogelwch.

6.2.2 Os yw'n ymddangos bod y digwyddiad yn bodloni'r meini prawf i ddefnyddio marciwr PT, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio ymhellach gyda'r Gwasanaeth dan sylw a, lle bo angen, yn trefnu i drafod y mater gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr.

6.2.3 Os bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr yn penderfynu bod yr unigolyn yn peri risg gyfredol a pharhaus i staff y Cyngor, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn anfon e-bost i roi gwybod i bob gwasanaeth. Bydd yr e-bost yn cadarnhau bod digwyddiad yn ymwneud â thrais neu ymddygiad ymosodol wedi digwydd, yn rhoi enw a chyfeiriad yr unigolyn, ac yn gofyn i staff sy'n debygol o ddod ar draws yr unigolyn yn ystod eu gwaith gael eu hysbysu ac i drefniadau addas gael eu rhoi ar waith.

6.2.4 Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn drafftio llythyr hysbysu ffurfiol (llythyr A) ar gyfer ei lofnodi gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr yn rhoi gwybod i'r unigolyn am y marciwr PT. Oni bai bod rhesymau dilys a sylweddol dros beidio ag anfon y llythyr, anfonir y llythyr o fewn 10 diwrnod i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr wneud y penderfyniad i ddefnyddio marciwr PT.

6.2.5 Os bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr yn penderfynu nad yw marciwr PT yn briodol, ond bod yr ymddygiad yn annerbyniol, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn drafftio llythyr (llythyr B) ar ran y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn dweud wrth yr unigolyn bod eu hymddygiad yn annerbyniol. Oni bai bod rhesymau dilys a sylweddol dros beidio ag anfon y llythyr, anfonir y llythyr o fewn 10 diwrnod i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr wneud y penderfyniad i beidio â defnyddio marciwr PT.

6.2.6 Rhaid i'r cyfiawnhad dros benderfyniad y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr gael ei gofnodi'n glir a'i gadw gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

6.2.7 Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn adolygu'r marciwr PT o fewn 3 mis, a phob 3 mis wedyn hyd oni wneir penderfyniad nad yw'r unigolyn mwyach yn peri risg gyfredol a pharhaus i staff y Cyngor. Bryd hynny, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn argymhell i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr y dylid tynnu'r marciwr PT.

6.2.8 Os bydd y Prif Weithredwr yn cytuno y gellir tynnu'r marciwr PT, bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn drafftio llythyr hysbysu ffurfiol (llythyr C) er mwyn i'r Prif Weithredwr ei lofnodi i hysbysu'r unigolyn bod y marciwr PT wedi'i ddileu.

6.3 Gwybodaeth nad yw'n seiliedig ar ddigwyddiadau

Weithiau, gall asiantaeth allanol (e.e. Heddlu Gogledd Cymru) dderbyn gwybodaeth am unigolion sy'n peri risg neu a allai beri risg i aelodau o staff a allai warantu gosod marciwr PT. Mewn digwyddiad o'r fath, dylid trosglwyddo'r wybodaeth i Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch a fydd yn gwneud yr ymchwiliadau angenrheidiol.

7.0 Hysbysiadau i Gleientiaid all beri risg

7.1 Fel arfer, mae'n hanfodol hysbysu'r unigolyn a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Fodd bynnag, os oes rhesymau dilys i gredu y gallai hysbysu'r unigolyn arwain at adwaith dreisgar, yna gellir peidio ag anfon hysbysiad. Gall fod achosion prin hefyd lle mae tystiolaeth y gallai hysbysiad achosi niwed difrifol i iechyd corfforol neu feddyliol yr unigolyn, ac yn yr achos hwnnw hefyd, nid oes angen anfon hysbysiad.

Mae tri llythyr templed ar gael a dylid eu hanfon allan o fewn 10 diwrnod i benderfyniad y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â marciwr PT.

- Llythyr A - a anfonir gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr i hysbysu'r unigolyn bod marc PT wedi'i roi yn eu herbyn.
- Llythyr B - a anfonir gan y Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth i rybuddio'r unigolyn bod eu hymddygiad yn annerbyniol.
- Llythyr C - a anfonir gan y Prif Weithredwr i hysbysu'r unigolyn bod y marciwr PT wedi cael ei ddileu.

Os gwneir penderfyniad i beidio â rhoi gwybod i'r unigolyn, rhaid i'r rheswm gael ei gofnodi a'i gadw gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch.

7.2 Apêl

Os nad yw'r unigolyn yn cytuno â'r penderfyniad i osod marciwr PT ar eu cofnod, ac yn dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad, mae'n ofynnol iddynt ysgrifennu at y Prif Weithredwr yn nodi'r rhesymau pam eu bod yn anghytuno.

Bydd y Prif Weithredwr wedyn yn ystyried yr apêl ac yn hysbysu'r unigolyn o'r canlyniad.

8.0 Meini Prawf ar gyfer Gwneud Cais am Farcwr PT

Mae cysondeb penderfyniadau i nodi unigolion fel rhai a allai fod yn dreisgar yn bwysig er mwyn sicrhau mai dim ond yr unigolion hynny sydd yn peri risg go iawn sydd â marciwr PT yn eu herbyn.

Fel arfer, ni fydd marciwr PT yn cael ei roi yn erbyn enw unigolion onid os oes tystiolaeth glir o un o'r mathau canlynol o ymddygiad yn erbyn un o weithwyr y Cyngor, ynghyd â chred bod risg gyfredol a pharhaus i staff y Cyngor:

- Ymosodiad corfforol gwirioneddol
- Cadw aelod o staff yn erbyn eu hewyllys
- Bygythiad credadwy o drais
 - Tystiolaeth o eitemau miniog
- Tystiolaeth o anifail peryglus

Dylid trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn sydd ag euogfarn flaenorol o natur dreisgar neu rywiol gan asiantaeth allanol (e.e. Heddlu Gogledd Cymru) i Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch. Bydd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yn gwneud yr ymchwiliadau angenrheidiol ac mewn achos lle mae'r unigolyn yn debygol o beri risg i weithiwr y Cyngor, bydd yn trafod defnyddio marciwr PT gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr.

Ni fydd marciwr PT fel arfer yn cael ei ddefnyddio os yw'r ymddygiad, er yn annerbyniol:

- yn cael ei ystyried fel ymddygiad annodweddiadol a achoswyd gan ryw ddigwyddiad trawmatig yn eu bywydau e.e. marwolaeth perthynas agos
- ddim yn cael ei ystyried fel ymddygiad bwriadol, e.e. gweithredoedd a achosir oherwydd eu dryswch, dementia, penbleth neu anallu i resymu o ran eu hamgylchedd neu sefyllfa.

Y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr fydd yn penderfynu a ddylid defnyddio marciwr PT yn dilyn digwyddiad o gam-drin geiriol.

Rhaid sicrhau cydbwysedd er mwyn lleihau'r risg bosibl o niwed i weithwyr.

9.0 Cadw, Rhannu a Diogelwch Gwybodaeth

Er mwyn i'r Cyngor gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018, ni fydd y Cyngor ond yn defnyddio gwybodaeth o'r fath i'r pwrpas a gymeradwywyd – sef gwarchod iechyd a diogelwch gweithwyr trwy eu rhybuddio eu bod yn delio ag unigolyn sydd â'r potensial i fod yn dreisgar.

9.1 Ni ddylid datgelu dogfennau i bersonau di-awdurdod a rhaid eu dinistrio ar unwaith pan nad oes angen y data mwyach ar gyfer gwarchod staff. Dylid cadw unrhyw ffeiliau papur ar achosion unigol yn ddiogel a'u marcio yn Swyddogol Sensitif. Dylai gwybodaeth electronig gael ei diogelu gan gyfrinair a dylai negeseuon e-bost gael eu nodi'n Swyddogol Sensitif.

9.2 Bydd y marciwr PT yn cael ei gadw am o leiaf dri mis, ond bydd yn dibynnu wedyn ar lefel y trais neu'r bygythiad o drais yn y digwyddiad gwreiddiol, yr amser sydd wedi mynd heibio ers y digwyddiad, ymddygiad blaenorol a dilynol yr unigolyn ac a oedd yn debygol o fod yn ymddygiad 'unigryw na fydd yn digwydd eto'. Er enghraifft, pan oedd yr unigolyn yn dioddef o straen anarferol oherwydd set benodol o amgylchiadau, gellir ystyried ei bod yn bosibl na fydd yr unigolyn hwnnw yn ymddwyn yn dreisgar eto.

9.3 Dim ond rhannu'r wybodaeth gyda'r gweithwyr hynny sy'n debygol o ddod ar draws yr unigolyn ond wedyn dim ond er mwyn sicrhau diogelwch staff.

9.4 Bydd yr wybodaeth a rennir yn cael ei chyfyngu i enw a chyfeiriad yr unigolyn ac yn cynnwys crynodeb byr iawn yn unig o'r digwyddiad. Er mwyn cydymffurfio â'r pumed egwyddor diogelu data, sef nad yw data personol yn cael ei gadw am fwy o amser na sy'n angenrheidiol, mae'n bwysig penderfynu am ba hyd y mae'r unigolyn yn parhau i fod yn fygythiad a sicrhau nad yw pobl yn cael eu hadnabod fel unigolion treisgar pan nad oes unrhyw fygythiad yn parhau i fodoli.

9.5 Bydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr yn penderfynu ar sail fesul achos a ddylid trosglwyddo gwybodaeth am unigolion â PT i sefydliadau eraill, naill ai mewn ymateb i gais uniongyrchol neu drwy wirfoddoli'r wybodaeth. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo onid yw'r Prif, Weithredwr Cynorthwyol/Dirprwy Brif Weithredwr yn fodlon bod tystiolaeth o risg gredadwy y bydd gweithred anghyfreithlon, fel ymosodiad, yn digwydd i aelod o staff neu unigolyn sy'n gysylltiedig â'r sefydliad arall hwnnw. Bydd y trosglwyddiad yn digwydd ar yr amodau canlynol:

9.5.1 Rhaid i'r sefydliad sy'n derbyn gadarnhau y bydd yn prosesu'r wybodaeth yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018.

9.5.2 Ni fydd y wybodaeth ond yn cael ei throsglwyddo i uwch swyddog o'r sefydliad sy'n derbyn y wybodaeth honno.

9.5.3 Pan fydd y Cyngor wedi penderfynu peidio â hysbysu'r unigolyn dan sylw fod marc PT yn ei erbyn, bydd y ffaith hon yn cael ei chyfleu i'r sefydliad sy'n derbyn y wybodaeth a bydd yn

ofynnol i'r sefydliad barchu'r penderfyniad hwnnw ac i beidio â datgelu'r ffaith honno heblaw fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu wedi caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.

9.5.4 Mewn achos ble mae'r Cyngor wedi hysbysu'r unigolyn dan sylw o'r marciwr PT, bydd hefyd yn eu hysbysu bod y wybodaeth wedi cael ei throsglwyddo oni bai bod agweddau penodol yn gysylltiedig â'r sefydliad sy'n ei derbyn a fyddai'n cyfiawnhau penderfyniad i beidio â hysbysu.

9.6 Mae datgelu gwybodaeth a rennir i bersonau nad oes ganddynt hawl i'r wybodaeth honno yn torri rheolau cyfrinachedd. Yn ddiethriad, bydd tor-cyfraith o'r fath yn cael ei drin fel mater difrifol a bydd yn destun camau disgyblu.

9.7 Lle mae bygythiadau newydd wedi cael eu gwneud neu unigolion sydd â marcwyr PT yn eu herbyn yn symud cyfeiriad. neu ble gwyddys eu bod yn byw mewn lleoliadau eraill, rhaid rhannu'r wybodaeth hon.

10.0 Diogelu Data

Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor ar gael ar y wefan.

Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â marcwyr PT yn erbyn unigolion yn gyfystyr â 'data personol' o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2018. Mae hefyd yn debygol o ddod o fewn y diffiniad o 'ddata personol sensitif' y mae amodau llym o ran ei ddefnyddio a'i gadw yn berthnasol. Cynlluniwyd y weithdrefn hon i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Mae gan unigolion yr hawl dan y Ddeddf i wneud cais gwrthrych i weld data. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r ffaith fod marciwr PT wedi cael ei ychwanegu at record yr unigolyn serch y ffaith y bydd y rheolydd data efallai wedi penderfynu'n flaenorol i beidio â dweud wrth yr unigolyn. Fodd bynnag, penderfynir ar hyn ar sail achosion unigol.

11.0 Difenwi

Diffinnir difenwi fel cyhoeddi datganiadau ffug neu ddifriol am berson heb gyfiawnhad cyfreithlon. Gall hyn gynnwys disgrifiadau pennawd neu gategoriâu a briodolir i unigolion.

Felly mae'n bwysig iawn bod yr holl wybodaeth a gedwir mewn perthynas ag unigolion sydd â marciwr PT yn gyfyngedig i wybodaeth a anfonir ymlaen yn ddiwyll a chred ddiwyll bod yr unigolyn yn fygythiad penodol i staff, ac y gellir ei gyfiawnhau er mwyn amddiffyn diogelwch y gweithwyr.

12.0 Dogfennau Perthnasol

- Polisi Trais yn y Gwaith
- Canllawiau Corfforaethol - Trais yn y Gwaith
- Templed Llythyr A – Rhoi Gwybod am Farciwr PT
- Templed Llythyr B - Ymddygiad Annerbyniol
- Templed Llythyr C - Hysbysu am Ddileu Marciwr PT